| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Cynllunio** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **15 Ebrill 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cyng. David Smith, Parth Cyhoeddus**<br>**Angela Loftus, Rheolwr Polisi Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lara Griffiths, Uwch Swyddog Cynllunio** |
| **Teitl:** | **Canllaw Cynllunio Atodol Hysbysebion - Mabwysiadu'r Ddogfen Derfynol** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad diweddar ar ddrafft Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Hysbysebion, ac yn argymell ei fabwysiadu gyda newidiadau er mwyn galluogi'r canllawiau i gael eu defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Gohiriwyd yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ym mis Mawrth 2015 i ystyried canlyniadau'r adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar y polisi Priffyrdd mewn perthynas ag arwyddion.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Ar ôl mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Ddinbych, mae angen CCA wedi'u diweddaru ar Hysbysebion er mwyn cynnig arweiniad pellach i ddatblygwyr, Swyddogion ac Aelodau. Mae copi terfynol o'r CCA ynghlwm i'r adroddiad hwn. Atodiad A

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1. Argymhellir bod yr Aelodau'n mabwysiadu'r CCA terfynol ar Hysbysebion i'w defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Ar ôl mabwysiadu'r CDLl ar 4 Mehefin 2013, cytunodd y Cyngor i ddwyn ymlaen y gyfres bresennol o CCA, gan gynnwys CCA 17 – Hysbysebion. Yn dilyn hyn mae'r CCA wedi cael ei ddiwygio i wneud canllawiau'n gliriach ac i ddarparu deunydd enghreifftiol gwell. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y CCA yn ystyriaeth cynllunio perthnasol wrth asesu ceisiadau cynllunio.

4.2. Mae'r CCA yn ategu polisïau a rheoliadau cenedlaethol mewn perthynas â hysbysebion a Pholisi DG1 o'r CDLl trwy ddarparu manylion ac arweiniad pellach ar y gwahanol fathau o hysbysebion sydd angen caniatâd ac agweddau i'w hystyried fel arwyddion dwyieithog a goleuadau priodol.

4.3. Roedd y CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus am 11 wythnos rhwng 1 Rhagfyr 2014 a 13 Chwefror 2015. Mae adroddiad ymgynghori yn manylu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad a'r ymatebion a dderbyniwyd ynghlwm fel Atodiad B i'r adroddiad hwn. Dim materion o bwys wedi codi ond mân newidiadau i gynnwys cyfeiriadau at waith yr Adran Priffyrdd a'r cynnig i wella'r cynllun. Newidiadau arfaethedig wedi'u hamlygu neu'n destun llinell drwodd yn y CCA diwygiedig ynghlwm fel Atodiad A. Adroddwyd ar ganlyniadau'r ymgynghoriad i'r Grŵp Llywio Aelodau CDLl ar 16 Chwefror 2015. Ar ôl ystyried yr argymhellion gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau mae nifer o fân newidiadau wedi'u gwneud i'r ddogfen, gyda'r prif un yn dileu Atodiad C, a oedd yn nodi safiad y polisi gan Briffyrdd. Ystyrir bod hyn yn cael gwared ar y dryswch posibl rhwng yr hyn sy'n bolisi a chanllaw Cynllunio a'r canllaw corfforaethol gan Briffyrdd mewn perthynas ag arwyddion heb awdurdod ar y briffordd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. *Blaenoriaethau Corfforaethol 2012-17. Bydd y CCA yn cyfrannu'n gadarnhaol at y flaenoriaeth gorfforaethol arfaethedig a ganlyn:*

- Datblygu'r economi leol - Gall darparu canllawiau pellach ar ddylunio arwyddion helpu busnesau i wella eu golwg a chreu busnes ychwanegol.
- Strydoedd glân a thaclus - gall cyngor mewn perthynas â gosod arwyddion palmant helpu i sicrhau bod strydoedd yn rhydd o rwystrau.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Ni ragwelir y bydd cytuno i fabwysiadu'r CCA yn creu unrhyw gost ychwanegol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Ni chredir bod angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad gwybodaeth hwn. Mae'r egwyddor o angen asesiad o effaith y datblygiad ar Hysbysebion wedi ei sefydlu trwy fabwysiadu'r CDLl. Mae'r CCA yn rhoi arweiniad pellach ar hyn. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb llawn ar y CDLl ym Mai 2011.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1 Ymgynghori mewnol wedi cael ei gynnal gyda swyddogion yn Adran Rheoli Datblygu, Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Swyddog Prosiect Cadwraeth.

8.2 Mae mewnbwn ar gynnwys y CCA hefyd wedi cael ei ddarparu trwy gyfrwng sesiwn gweithdy a gynhaliwyd gyda Grŵp Llywio Aelodau’r CDLl. Hefyd, ymgynghorwyd ar y ddogfen ddrafft gydag ystod o randdeiliaid i gyd yn Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned, yn ogystal â’r cyhoedd yn gyffredinol fel y manylir yn yr adroddiad ymgynghori yn Atodiad B.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Dylai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r canllawiau fod wedi eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg yn yr adroddiad.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Yn absenoldeb canllawiau cyfoes, mae perygl y gall busnesau gyflwyno cynlluniau amhriodol a fydd yn niweidiol i ganol ein trefi llewyrchus a bywiog.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).